



CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

10 Hydref 2022

Datganiad Cyfrifon 2021-2022

Adroddiad gan Brif Swyddogion Cyllid y Prif Gwnstabl
a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.



1. Cefndir

1.1 Yn dilyn cyflwyniad Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei adnabod fel unig gorfforaethau o 22 Tachwedd 2012. Yn ymarferol, mae'n ofynnol i'r unig gorfforaethau baratoi eu Datganiad o Gyfrifon sengl yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Lleol (y Cod) a'r Safonau Hysbysu Ariannol Rhyngwladol perthnasol. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynhyrchu set o Gyfrifon Grŵp.

1.2 Mae'r Datganiadau wedi'u cynhyrchu yn unol â'r Cod, y ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau sydd ar gael. Mae dwy ddogfen wedi cael eu cynhyrchu, sef:

- Cyfrifon Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac Endid Unigol 2021-2022. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfrifon Grŵp a chyfrifon endid unigol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- Cyfrifon Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru 2021-2022. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifon endid unigol y Prif Gwnstabl a Chyfrif Pensiwn yr Heddlu 2021-2022.

1.3 Mae copïau o'r ddwy ddogfen i'w cael ar wahân.

2. Y broses ar gyfer cwblhau Datganiad Cyfrifon 2021-22

2.1 Mae Gwelliant Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2018 yn gofyn i'r swyddog ariannol cyfrifol lofnodi a rhoi dyddiad i'r datganiad cyfrifon ac ardystio ei fod yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn ariannol erbyn dim hwyrach na 31 Mai o'r flwyddyn honno. Mae'n ofynnol wedyn i'r swyddog ariannol cyfrifol wedyn ardystio'r datganiad eto cyn y caiff ei gymeradwyo a'i gyhoeddi gyda thystysgrif, barn neu adroddiad yr archwilydd perthnasol er mwyn cyhoeddi'r datganiad erbyn 31 Gorffennaf y flwyddyn honno.

2.2 Daeth yr amserlen ddiwygiedig a gyflwynwyd gan y gwelliant uchod â'r dyddiad cychwynnol a'r dyddiad olaf ymlaen, gan gwtogi'r amserlen gyffredinol 2 fis. Cyfrifon 2018-2019 oedd y flwyddyn gyntaf lle'r oedd y dyddiadau hyn yn berthnasol. Roedd y manteision o allu symud ymlaen at waith arall yn gynt yn y flwyddyn yn sylweddol.

2.3 Effeithiwyd yr amserlen, cynnwys a phrosesau a fabwysiadwyd ar gyfer 2021-22 gan y pandemig Covid mewn ffordd debyg i 2020-2021. Crëwyd ac ardystiwyd y datganiadau drafft gan y swyddogion cyfrifol erbyn diwedd mis Mai 2022. Fodd bynnag, oherwydd oedi mewn archwilio cyfrifon y Gwasanaeth Iechyd, roedd Archwilio Cymru yn methu dechrau eu gwaith archwilio mewn pryd er mwyn cyrraedd y dyddiad cau sef 31 Gorffennaf.

- 2.4 Yn dilyn trafodaeth gydag Archwilio Cymru ac aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio, gosodwyd amserlen ddiwygiedig gyda 10 Hydref fel y dyddiad erbyn cymeradwyo'r cyfrifon. Roedd hyn yn dilyn canllawiau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu fod hyn yn dderbyniol ar yr amod fod yr hysbysiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud a bod y cyfrifon drafft yn cael eu cyhoeddi fel drafft erbyn diwedd mis Gorffennaf. Bodlonwyd y ddau ofyniad hyn, ynghyd â symud y dyddiad a osodwyd i etholwyr llywodraeth leol allu holi'r Archwilydd Cyffredinol i 19 Medi gyda'r cyfrifon ar gael i'w harolygu am 20 diwrnod cyn y dyddiad hwn.
- 2.5 Diwygiwyd prosesau yn ystod y cyfnod paratoi ac archwilio ac wedi hynny er mwyn adlewyrchu fod staff Cyllid ac Archwilwyr yn cyflawni eu dyletswyddau o gartref yn y mwyafrif helaeth o achosion, yn gweithio o bell ac yn cynnal cyfarfodydd ar-lein ac yn rhannu data lle bo angen er mwyn sicrhau fod cyfathrebu effeithiol yn digwydd.
- 2.6 Mae rhai materion wedi dod i'r amlwg ers creu'r cyfrifon drafft gwreiddiol ddiwedd mis Mai 2022. Mae hyn wedi arwain at newid cynnwys a chyflwyniad y cyfrifon. Manylir y rhain yn Adran 4.
- 2.7 Mae adborth gan aelodau'r CA o ran Datganiad Cyfrifon 2021-2022 hefyd wedi ei ystyried. Ychwanegir at y newidiadau a wnaed yn y cyfrifon blaenorol er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth o'r cyfrifon.
- 2.8 Oherwydd natur dechnegol y cyfrifon a'r gofynion cyfrifyddu cynnydd i arferol o fewn cyfrifyddu llywodraeth leol, mae gwella eu haddasrwydd i ddefnyddwyr yn parhau'n heriol. Fodd bynnag, y bwriad fyddai parhau i ddatblygu'r agwedd hon yn flynyddol heb beryglu eu cyflawniad erbyn y dyddiadau cau priodol.
- 2.9 Mae'r canlynol yn amlinellu rhai o'r digwyddiadau allweddol sy'n bwydo i greu'r datganiadau diwygiedig
- 31.05.2022: Llofnodwyd y cyfrifon drafft a'u hanfod at dîm Archwilio Cymru.
 - 20.06.2022: Dechreuodd yr Archwiliad yn llawn
 - 21.06.2022: Cyflawnwyd y Sesiwn Frifio Dechnegol i aelodau'r CA.
 - 28.07.2022: Cynhaliwyd y Cydbwyllgor Archwilio gan gynnwys diweddariad ar y cyfrifon.
 - 22.09.2022: Cyhoeddwyd set o gyfrifon drafft diwygiedig gyda newidiadau a gytunwyd arnynt wedi'u hanfon at Archwilio Cymru

3. Cynnwys y Datganiadau

- 3.1 Mae'r ddau Ddatganiad yn cynnwys Adroddiad Naratif sy'n cynnwys y gofynion yn ôl y Cod. Nid yw'r rhain yn cael eu hailadrodd yn yr adroddiad hwn ond mae'r prif benawdau – wedi'u datblygu ar y cyd gyda'r Cydbwyllgor Archwilio ac adolygiad o arfer da mewn sefydliadau Plismona eraill – yn cynnwys:
- Cyflwyniad
 - Llywodraethu a Chyfrifoldebau

- Blaenoriaethau Strategol
- Cyfarfod Adolygu
- Risg Corfforaethol
- Cyflawniad Ariannol 2021-22
- Cysoni Cyllid GAAP
- Amodau Cronfeydd wrth Gefn a Ffynonellau Cyllid
- Rhagolwg
- Polisiâu cyfrifyddu
- Cydweithio a chyrrff eraill
- Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd:
- Eglurhad o'r prif ddatganiadau.

3.2 Mae Datganiadau Cyfrifon mewn Llywodraeth Leol yn ddogfennau technegol iawn. Mae'r cyfuniad o'r gofynion cyfrifyddu, ynghyd â chynnydd Statudol a Rheoleiddiol (er mwyn sicrhau nad yw'r ffordd y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn peri costau ychwanegol i'r cyhoedd) yn arwain at set o Ddatganiadau cymhleth. Mae gofynion ychwanegol dau endid unigol a set o gyfrifon Grŵp yn ychwanegu ymhellach at y cymhlethdod hwn.

3.3 Mae'r dull a gymerwyd yng Ngogledd Cymru, yn dilyn trafodaethau gyda Rhwydwaith Cyllid CIPFA'r Heddlu, heddluoedd eraill Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn adlewyrchu realiti'r trefniadau. Canlyniad hyn yw bod cost Plismona yn cael ei ddangos yng Nghyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Prif Gwnstabl. Newidiodd fformat y datganiad hwn yn 2016-2017 gan ei fod yn ofynnol gan y Cod i gael ei baratoi yn unol ag adrodd rheolwyr h.y. ar sail dadansoddiad goddrychol.

3.4 Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid (EFA) yn dangos y gwariant blynyddol a sut y bydd yn cael ei ariannu i ddangos y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a'r effaith gyffredinol ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio am y flwyddyn.

3.5 Mae'r prif ddatganiadau eraill yn dilyn ymlaen o'r EFA. Erbyn hyn, mae gan y Prif Gwnstabl fantolen gyfyngedig, symudiad mewn cronfeydd wrth gefn a datganiad llif arian o gyflwyno'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid. Mae'r rhain yn cynnwys y cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio mewn perthynas â'r ased/rhwymedigaeth Pensiwn net a'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig. Yna mae'r nodiadau i'r datganiadau yn dilyn yr hyn a gynhwysir yn y prif ddatganiadau.

4. Crynodeb o newidiadau i'r drafft terfynol ac ymateb Rheolwyr i Adroddiad Archwilio Cymru

4.1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu rhoi barn diamwys ar y ddau Ddatganiad Cyfrifon fel yr amlinellir yn ei adroddiad. Mae dau gamddatganiad heb eu cywiro sydd wedi'u manylu isod.

4.2 Camddatganiadau heb eu cywiro

Eiddo, Peiriannau ac Offer: Prisiau Tir ac Adeiladau

'Mae gofyn i gyrff archwiliedig ledled pob sector i gyfrif am eiddo, peiriannau ac offer yn unol ag Eiddo, Peiriannau ac Offer IAS 16.

Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn caniatáu cyrff archwiliedig fabwysiadu rhaglen brisio sy'n prisio eiddo, peiriannau ac offer dros gyfnod 'byr'. Dehonglir 'cyfnod byr' fel bod asedau'n cael eu hailbrisio unwaith bob pum mlynedd ar gyfer pob dosbarth o asedau. Mae hyn ar yr amod nad ydy'r swm sy'n cael ei gario yn gwbl wahanol i'r hyn a fyddai'n cael ei benderfynu gan ddefnyddio'r gwerth presennol ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Mae newidiadau wedi bod yn amodau'r farchnad dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi effeithio ar werthoedd asedau a gedwir. Mae hyn wedi arwain at gyrff archwiliedig yn ystyried a ydy cario gwerth asedau sydd heb eu hailbrisio yn ystod 2021-22 yn parhau'n hanfodol gywir.

Gwnaeth prisiwr allanol penodedig i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyhoeddi adroddiad 'Adolygiad o'r Farchnad' ar gyfer y cyfnod 2021-22 sy'n dangos pa newidiadau yn amodau'r farchnad all effeithio ar werth cario Tir ac Adeiladau o fewn y cyfrifon:

- Mae pris meysydd tanio, sy'n cael eu prisio ar gost amnewid is o bosib wedi cynyddu 6% oherwydd y symudiadau sylweddol mewn costau adeiladu yn ystod 2021-22. Mae hyn yn rhoi cynnydd yn y pris o £876,000.*
- Mae pris adeiladau heddlu, sy'n cael eu prisio ar bris defnydd presennol, o bosib wedi cynyddu 4% oherwydd y cynnydd mewn rhenti'r farchnad. Mae hyn yn rhoi cynnydd yn y pris o £1,337,000*

Nid oes prisio ffurfiol wedi'i wneud ar gyfer yr asedau o dan sylw.

Mae hyn wedi'i drafod gyda rheolwyr, ond mae'n parhau'n anghywir, gan arwain at y camddatganiad canlynol:

- Tanddatganiad o £2,213,000 mewn cost tir ac adeiladau gros yn Nodyn 12.'*

Ymateb – Prisir asedau Tir ac Adeiladau'n ffurfiol bob 5 mlynedd. Mewn blynyddoedd blaenorol mae amrywiadau posibl yn y gwerth cario oherwydd amseru'r prisiau wedi bod yn ddinod. Yn 2021-22, oherwydd anwadalrwydd prisiau Tiroedd ac Adeiladau penodol, mae'r amcangyfrifon uchod wedi'u cyfrifyddu ar gyfer y Tiroedd a'r Adeiladau hynny sydd ddim yn gynwysedig ym mhris 2021-22. Nid ydy'r ffigwr tybiedig hwn yn berthnasol o fewn y cyfrifon, ac ni ystyrir ei fod yn effeithio'r ddealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol gyffredinol. Ystyrir pris llawn ar gyfer 2022-23, ond bydd hyn yn arwain at gostau ychwanegol o ran y gyllideb refeniw. Mae'r cynnydd % net uchod ond yn dangos arwydd o gyfeiriad cyffredinol gwerthoedd asedau. Yn wir, ni wnaeth yr asedau a brisiwyd yn 2021-22 gynyddu yn eu pris yn sylweddol o'u pris blaenorol. Byddai gweithredu dull prisio mynegeio ar y pwynt hwn yn y broses gyfrifyddu, yn hytrach na'r prisio ffurfiol arferol, yn achosi problemau technegol ynghyd â pheidio dilyn y polisiau cyfrifyddu a ddywedir, sy'n dweud:

'Mae asedau a geir yn y Fantolen ar werth presennol yn cael eu hadbriso'n ddigonol ac yn rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario ymlaen yn sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, o leiaf bob pum mlynedd.'

Ystyrir fod y ffigyrau yn y cyfrifon yn bodloni'r angen hwn o hyd gan nad ydy'r swm yn berthnasol.

Nodyn 12 Eiddo, Peiriannau ac Offer: Asedau Gwerth Llyfrau Net Dim

Nododd ein hadolygiad o'r gofrestr asedau sefydlog nifer sylweddol o asedau a ddibrisiwyd yn llawn ond a gaed o hyd yn y datganiadau ariannol.

Nid ydy cynnwys yr asedau hyn o fewn y cyfrifon yn effeithio ar y fantolen gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod nodyn 12 yn adlewyrchiad gwirioneddol o asedau gweithredol.

Nododd ymchwiliad gan y tîm cyllid asedau gyda gwerth llyfr gros a dibrisiad cronedig gros o £2,180,000 na fydd yn weithredol bellach efallai. Ymgymerir â gwaith pellach o fewn 2022-23 er mwyn cadarnhau pob ased sydd angen eu digomisiynu gyda'r addasiad i gael ei wneud o fewn cyfrifon 2022-23.

Mae hyn wedi arwain at y camddatganiad canlynol:

- *Cost gros Peiriannau ac Offer wedi'i or-ddweud £2,180,000 o fewn Nodyn 12.*
- *Dibrisiad cronedig gros Peiriannau ac Offer wedi'i or-ddweud £2,180,000 o fewn Nodyn 12.*
- *Dim effaith ar ddadleniadau'r fantolen*

Ymateb - Cafodd cyfanswm o £16.4m o fastiau, peiriannau ac offer sydd wedi'u dibrisio'n llawn ar 31.3.2022 eu hadolygu gyda'r Adrannau perthnasol. O'r asedau, nodwyd bod gwerth £2.18m o'r rhain heb gael eu defnyddio neu wedi'u hamnewid. Diystyrir y rhain yn 2022-23 ac fe gynhelir adolygiad o unrhyw asedau pellach sydd wedi'u hamnewid neu sydd ddim mewn defnydd. Mae hyn ond yn effeithio'r nodyn ac ni ystyrir ei fod yn effeithio'r ddealltwriaeth gyffredinol o'r sefyllfa ariannol gyffredinol.

4.3 Camddatganiadau a gywirwyd

Cafwyd cywiriadau ac eglurhad eraill o'r hyn sy'n deillio o'r archwiliad a'r adolygiad gan aelodau'r CA. Mae'r rhain yn cynnwys nifer a drafodwyd neu a gynigwyd yn ystod y sesiwn frifio dechnegol. Roedd y rhain yn dechnegol eu natur neu'n symudiadau rhwng nodiadau. Mae'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi'u heffeithio gan un o'r diwygiadau. Er mae hyn yn dechnegol ei natur gan fod y swm yn cael ei symud o un llinell ar y fantolen i'r cronfeydd wrth gefn, rhaid i'r trafodyn fynd drwy'r cyfrif refeniw. Mae'r rhain wedi'u crynhoi'n fyr isod ac yn cael eu cynnwys yn Atodiad 5 o adroddiad yr archwilydd:

- Eglurhad pellach i'r adroddiad Naratif a'r Adroddiad Llywodraethu Blynyddol.
- Mae'r swm o £1.282m wedi'i symud o gredydwy'r i gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn berthnasol i grant o'r Swyddfa Gartref a oedd yn berthnasol i SCCH. Gan fod holl amodau'r grant wedi'u cyflawni ac nad oes dim swm yn ad-daladwy i'r Swyddfa Gartref, mae'r swm wedi'i drosglwyddo i Gronfa Plismona Cymdogaethau wrth Gefn. Gall hyn gael ei ddefnyddio er mwyn rheoli newidiadau byr rybudd i'r Grantiau Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu, neu ariannu gofynion Plismona Cymdogaethau unigryw.
- Mae'r trafodion IAS19 ar gyfer Pensiynau yn gymhleth eu natur sy'n cynnwys nifer o gofnodion dyddlyfrau, sydd yn eu hanfod yn disodli'r costau gwirioneddol o fewn y cyfrifon (cyfraniadau'r cyflogwr) gyda thrafodion cost pensiwn tybiedig yr actiwariau. Perchir y rhain wedyn o fewn yr MIRS. Darganfuwyd fod un o'r trafodion hyn yn cael eu codi i gostau Pensiynau a dylai fod wedi bod yn gostau Cyflog Heddlu. Fel gyda holl ffigyrau Pensiwn yr Heddlu roedd y swm yn fawr sef £7.956m. Mae cywiriad i'r swm hwn wedi'i wneud rhwng y costau Pensiwn a chostau Cyflog yr Heddlu ar y CIES.
- Mae newidiadau bach eraill ar nodiadau amrywiol i ychwanegu eglurhad wedi'u gwneud hefyd.

5. Argymhellion

- Aelodau'r pwyllgor archwilio i nodi cynnwys yr adroddiad hwn yn unol â dyletswyddau'r pwyllgor a sefydlwyd yn y cylch gorchwyl, gan adolygu datganiadau blynyddol cyfrifon a datganiadau llywodraethu blynyddol yn benodol.

A datrys:

Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi adolygu Datganiadau Ariannol Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae hefyd wedi ystyried adroddiadau'r archwiliwr allanol o hynny ymlaen. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn cadarnhau nad oes materion heb eu datrys yn codi sydd angen eu hadrodd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, cyn i'r Datganiadau Ariannol Blynyddol gael eu cymeradwyo.

6. GOBLYGIADAU

| | | |
|-----|--------------|---|
| 6.1 | Cydraddoldeb | Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu am yr egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd. |
| 6.2 | Ariannol | Nod yr adroddiad hwn yw cyflwyno datganiad cyfrifon y ddwy gorfforaeth unigol i'r pwyllgor. |

| | | |
|-----|-----------------------------|--|
| 6.3 | Cyfreithiol | Mae'r datganiad cyfrifon yn cyrraedd y safonau disgwylidig, fel sy'n cael eu holrhain o fewn yr adroddiad. |
| 6.4 | Cymuned | Cyhoeddir y datganiadau cyfrifon ar wefan y Comisiynydd. Mae hysbysiad cyhoeddus wedi'i gyhoeddi o dan Adrannau 29, 30 a 31 Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004, sy'n datgan y gall aelodau o'r cyhoedd, rhwng 27 Gorffennaf a 24 Awst 2021, archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a gofyn cwestiynau i'r Archwilydd penodedig o 1 Medi ymlaen. |
| 6.5 | Risg | Mae gweithdrefnau rheoli risg wedi'u sefydlu ac fe'u hystyriwyd ar wahân gan y pwyllgor fel rhan o'r trefniadau llywodraethu cyffredinol. Mae risgiau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad o gyfrifon Mae risgiau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad o gyfrifon. |
| 6.6 | Nghynllun Heddlu a Throsedd | Ystyrir Cynllun yr Heddlu a Throsedd ar ddechrau'r cylch cynllunio ariannol i sicrhau y gellir cyflawni'r cynllun o fewn cyllideb gynaliadwy |